**Lesley Griffiths AM/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - L/LG/0654/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@cynulliad.cymru

29 Hydref 2018

Annwyl Mick

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r Environmental Assessments and Miscellaneous Planning (Amendment) (EU Exit) Regulations 2018, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A.

Nid wyf yn bwriadu gosod cynnig i drafod yr OS hwn yn yr achos yma. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail y ffaith mai'r unig ffordd a wnelo'r OS â ni yw ei fod yn cywiro cyfeiriadau a fydd wedi dyddio mewn cyfraith oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae'r darpariaethau yn yr OS yn rhai technegol eu natur, ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei hystyried, nid wyf o'r farn y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae RhS 30A y darparu y caiff unrhyw aelod gyflwyno cynnig i drafod yr OS hwn, a byddwn yn fwy na pharod i gymryd rhan mewn dadl, os caiff un ei chynnal.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales